# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideo gynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 19 Hydref 2020

Amser: 10.00 - 11.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6471

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Mick Antoniw AS (Cadeirydd)<br>Carwyn Jones AS<br>Dai Lloyd AS<br>David Melding AS |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Nia Moss (Ymchwilydd)<br>Lucy Valsamidis (Ymchwilydd)<br>Rhiannon Lewis (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi penderfynu, yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Yn unol â Rheol Sefydlog 17.24A, datganodd David Melding fuddiant mewn perthynas ag Eitem 2.1.

## 2 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

### 2.1 SL(5)630 – Rheoliadau Mabwysiadu a Maethu (Cymru) (Diwygiadau Amrywiol) (Coronafeirws) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd, ac i drafod ymateb Llywodraeth Cymru mewn cyfarfod yn y dyfodol.

### 2.2 SL(5)632 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 14) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(5)631 – Gorchymyn Cynrychiolaeth y Bobl (Eithrio Treuliau Etholiad) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.4 SL(5)633 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol etc.) (Cymru) (Diwygio) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.5 SL(5)634 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 18) (Bangor) 2020

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn, ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy'n codi materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 – trafodwyd yn flaenorol

### 3.1 SL(5)625 – Rheoliadau Mangreoedd a Cherbydau Di-fwg (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a bod y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau wedi'i ddiwygio.

### 3.2 SL(5)627 – Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 16) (Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam) 2020

Nododd y Pwyllgor yr ymateb gan Lywodraeth Cymru.

### 3.3 SL(5)623 – Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Tenantiaethau Preswyl: Gwarchodaeth Rhag Troi Allan) (Cymru) 2020

Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cymru a chytunodd i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i ofyn am eglurhad pellach mewn perthynas â'r pwyntiau adrodd gwreiddiol.

## 4 Offerynnau statudol y mae angen i'r Senedd gydsynio â hwy (Memoranda Cydsyniad Offeryn Statudol)

### 4.1 SICM(5)30 - Rheoliadau Gofal Iechyd Cilyddol a Thrawsffiniol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a'r sylwadau cysylltiedig. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Gweinidog i fynegi pryder na fyddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno cynnig i gynnal dadl ynghylch y Memorandwm.

## 5 Adroddiad Rheol Sefydlog 30B: Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Fframweithiau Cyffredin

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r adroddiad.

## 6 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

### 6.1 WS-30C(5)170 – Rheoliadau Amaethyddiaeth (Taliadau) (Diwygiadau etc.) (Ymadael â’r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

### 6.15 WS-30C(5)171 – Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Cyrff Cynhyrchwyr a Gwin) (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau cysylltiedig, yn benodol bod anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynghylch a oes angen cydsyniad.

### 6.3 WS-30C(5)172 – Rheoliadau Bwyd (Diwygiadau) (Ymadael â'r UE) 2020

Nododd y Pwyllgor y datganiad a'r sylwadau.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru: Bil Marchnad Fewnol y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol ac Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

### 7.2 Llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol: Achosion o dorri’r rheol 21 diwrnod a materion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth sy’n gysylltiedig â COVID-19

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Cwnsler Cyffredinol.

### 7.3 Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cam-drin Domestig

Nododd y Pwyllgor y llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip.

## 8 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 9 Bil Marchnad Fewnol y DU: Papur briffio gan Lywodraeth Cymru

Nododd y Pwyllgor y papur briffio gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Bil Marchnad Fewnol y DU. At hynny, nododd y Pwyllgor y byddai'n clywed tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil yn ei gyfarfod ar 2 Tachwedd 2020, a bod aelodau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol a'r Pwyllgor Cyllid wedi eu gwahodd i ymuno â'r cyfarfod.

## 10 Diweddariad Brexit – fframweithiau cyffredin

Nododd y Pwyllgor y papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil mewn perthynas â fframweithiau cyffredin.

## 11 Gorchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad ar Orchymyn Cynllun Masnachu Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr 2020, a chytunwyd arno yn ddarostyngedig i fân ddiwygiadau.

## 12 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol: Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol. Nododd y Pwyllgor y byddai’r adroddiad yn cael ei osod erbyn y terfyn amser, sef 22 Hydref 2020.

## 13 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2): Trafod yr adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor ei adroddiad drafft ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ardrethu Annomestig (Rhestrau) (Rhif 2), a chytunodd i ystyried drafft diwygiedig yn y cyfarfod nesaf.

## 14 Rheoliadau COVID-19: Trafod yr ohebiaeth a ddaeth i law

Trafododd y Pwyllgor y prif faterion mewn perthynas â chraffu ar reoliadau COVID-19 a sut yr oedd am ymateb i'r llythyr oddi wrth y Llywydd dyddiedig 8 Hydref 2020.